

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

The Family Practice, Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad arolygu: 10 Rhagfyr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mawrth
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	20
4.	Beth nesaf?	22
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	26
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	27

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn cael gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Family Practice, Morfydd Street, Abertawe, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 10 Rhagfyr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion.

Roedd tîm cryf yn cael ei arwain gan y prif ddeintydd a oedd wedi gweithio yn yr ardal ers blynnyddoedd lawer.

Gwelsom fod rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â chadw cofnodion cleifion a sicrhau bod y staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod y practis hwn yn ardderchog neu'n dda iawn
- Mae'r practis yn darparu detholiad mawr o ddeunydd ar iechyd y geg ar gyfer y cleifion
- Roedd y practis yn hygyrch i gleifion sydd ag anawsterau symudedd
- Roedd y practis yn lân ac yn daclus iawn.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen craffu'n fanylach ar hyfforddiant gorfodol i'r staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth
- Cwblhau'r broses o newid i gofnodion cwbl electronig ar gyfer nodiadau cleifion.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae The Family Practice, Morfydd Street, Abertawe yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Treforys, Abertawe. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys un deintydd, tair nyrs ddeintyddol gofrestredig, un derbynnydd ac un hylenydd hunangyflogedig.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ac roedd system gadarn ar waith ar gyfer nodi cwynion ffurfiol ac anffurfiol.

Roedd y practis yn gwahodd y cleifion i roi adborth ac roedd ffurflenni i'w cwblhau ar gael yn y dderbynfa.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 24 o holiaduron. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

Rwyf wedi bod yn hapus iawn â'r ffordd mae'r practis hwn wedi fy nhrin

Rwyf wedi bod yn glaf yn y ddeintyddfa ers dros ugain mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae pawb wedi bod yn broffesiynol ac yn barod iawn i helpu

Rwyf bob amser wedi cael gofal ardderchog yn y practis

Staff cyfeillgar iawn sy'n barod i helpu

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Yn y dderbynfa a'r ardal aros, gwelsom fod detholiad mawr o wybodaeth ar gael am iechyd y geg a thriniaethau deintyddol.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach

Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Gwelsom y staff yn trin y cleifion yn gwrtais ac yn broffesiynol. Gwelsom fod gan y practis bolisi urddas a pharch cleifion.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn defnyddio'r ail ystafell aros pe byddai angen cael trafodaeth breifat wyneb yn wyneb neu dros y ffôn â chlaf. Roedd gan y practis bolisi cyfrinachedd a pholisi a oedd yn ymwneud â datgelu gwybodaeth gyfrinachol drwy ddamwain ar waith.

Roedd gwybodaeth mewn llawysgrifen neu wybodaeth electronig am gleifion yn cael eu storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif wedi'i diogelu. Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi diogelu data.

Gwybodaeth i gleifion

Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Roedd hysbysiadau yn nodi costau triniaeth y GIG a chostau triniaeth breifat yn yr ardal aros. Lle y bo'n berthnasol, dywedodd pob un o'r cleifion eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Gwelsom wybodaeth am y polisi o ran cael gafael ar wasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat. Roedd hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer derbyn cleifion a'r trefniadau ar gyfer asesu cleifion, gwneud diagnosis a'u trin.

Roedd gan y practis daflen wybodaeth fanwl i gleifion, a oedd ar gael yn hawdd i gleifion ac ymwelwyr â'r practis.

Y tu allan i'r practis, gwelsom fod oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng wedi'u harddangos, ynghyd ag enw a chymwysterau'r prif ddeintydd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Nid oes unrhyw aelod o staff y practis yn rhugl yn y Gymraeg. Roedd hysbysiad yn ardal y dderbynfa er mwyn hysbysu'r cleifion y gellid darparu gwasanaeth

dwyieithog ar gais ac roedd darpariaethau ar waith gan y practis ar gyfer cynnig gwasanaeth o'r fath.

Gofal amserol

Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'u harddangos wrth fynedfa'r practis ac wedi'u cynnwys fel rhan o neges peiriant ateb y practis. Dim ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur a ddywedodd na fyddai'n gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau petai ganddo broblem ddeintyddol frys.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn ei chael hi'n hawdd iawn neu'n gymharol hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym, pe byddai'r prif ddeintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Mae'r practis yn rhoi triniaethau fel y nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben¹.

Dangosodd adolygiad o gofnodion y cleifion fod y prif ddeintydd yn cofnodi ei bod yn holi'r cleifion am eu hanes meddygol yn ystod eu hymweliad.

Lle y bo'n berthnasol, cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth

Hawliau pobl

O ran mynediad i'r practis, roedd llethr bach o lefel y stryd at ddrws y ffyrnt. Nid oedd unrhyw gyfyngiadau o ran mynediad i'r dderbynfa na'r ardal driniaeth ar y llawr gwaelod. Fodd bynnag, gallai fod yn anodd i rai cleifion ddefnyddio'r toiled

¹ <http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/sub-ld10945/sub-ld10945-e.pdf>

i gleifion nad oedd yn briodol ar gyfer pobl â symudedd cyfyngedig neu y byddai angen cymhorthion ffisegol arnynt i ddefnyddio'r toiledau.

Roedd gan y practis bolisiïau priodol ar waith i ddiogelu hawliau pobl, gan gynnwys polisi cyfle cyfartal, polisi urddas a pharch tuag at gleifion a pholisi profiad y claf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y gall pobl â symudedd cyfyngedig ddefnyddio'r toiledau.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Nodwyd gennym fod y polisi yn gydnaws â phroses gwyno Gweithio i Wella y GIG a'i fod yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd lleol ac AGIC. Roedd y polisi yn gydnaws â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 mewn perthynas â thriniaeth ddeintyddol breifat. Roedd y polisi wedi'i arddangos yn glir yn y dderbynfa.

Rheolwr y practis oedd yr unigolyn a enwebwyd fel y prif gyswllt ar gyfer unrhyw gwynion. Er na chafwyd llawer o gwynion, roedd system ar waith gan y practis i gofnodi cwynion ffurfiol, gan sicrhau y câi natur y gŵyn, y camau gweithredu a gymerwyd a'r canlyniad eu cofnodi. Yn ogystal, roedd system ar waith gan y practis i gofnodi pryderon llafar/anffurfiol.

Roedd gan y practis ffurflen adborth cwsmeriaid yn yr ardal aros ond ar hyn o bryd, nid yw'n rhoi adborth i'r cleifion. Awgrymwyd gennym y dylai'r practis ystyried cynnwys arddull Dywedoch Chi, Gwnaethom ni² o adborth.

² [Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni](#)

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn gynhwysfawr; roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, yn ogystal â thystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis a chawsom sicrwydd fod systemau priodol ar waith i sicrhau nad oedd y dyddiad darfod wedi mynd heibio, eu bod yn ddiogel ac yn barod i'w defnyddio.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef. Nodwyd gennym fod polisi iechyd a diogelwch ynghyd â pholisïau perthnasol eraill a oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Gwelsom boster iechyd a diogelwch yn yr ystafell ddihalogi.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn. Roedd yr adeilad yn ymddangos fel pe bai mewn cyflwr da, a hynny y tu mewn a'r tu allan. Gwelsom fod yr holl ardaloedd y gall y cyhoedd gael mynediad iddynt yn lân ac yn daclus.

Nodwyd gennym fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel yn y practis. Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau o gwmpas yr adeilad. Gwelsom dystiolaeth eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod y dyfeisiau diffodd yn addas i'w ddefnyddio. Roedd arwyddion priodol yn dangos ble roedd yr allanfeydd tân. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant

ymwybyddiaeth a diogelwch tân ac roedd yr hyfforddiant hwn yn cael ei atgyfnerthu drwy gynnal hyfforddiant blynyddol ac ymarferion tân rheolaidd.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus, gwastraff (cartref) nad yw'n beryglus a gwastraff amalgam yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio ar gyfer rheolaethau COSHH a thaflenni data diogelwch perthnasol. Roedd hyn yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n beryglus a'r cyfarwyddiadau ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel yn y practis.

Roedd gan y practis bolisi adrodd ar ddamweiniau a llyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) a oedd yn cael ei gwblhau pan fyddai damwain yn digwydd. Ar adeg yr arolygiad, roedd gan y practis bolisi parhad busnes ac adfer mewn trychineb, ond nid oedd manylion y polisi yn cynnwys rhan helaeth o'r wybodaeth, megis rhifau ffôn a thystysgrifau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y cynllun parhad busnes yn gyflawn ac yn addas at y diben, gan gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05³. Roedd yr ystafell yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

³ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

Gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw. Roedd polisi rheoli heintiau a pholisi diogelwch offer miniog ar waith ac roedd y practis wedi penodi arweinydd rheoli heintiau.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol yn ymwybodol o'r protocol o ran anafiadau o ganlyniad i offer miniog⁴.

Gwelsom dystiolaeth fod y rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw system ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac o ganlyniad, roedd rhai cyrsiau, megis diogelu, wedi cael eu trefnu'n hwyr. Argymhellwn y dylai'r practis ddatblygu matrices hyfforddiant er mwyn gwella'r sefyllfa.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn aildefnyddio bandiau matrices. Argymhellwn y dylai'r practis ddefnyddio bandiau matrices defnydd unigol.

Roedd nifer y darnau llaw uwchsonig a oedd ar gael yn y practis i'w defnyddio gan yr hlenydd yn gyfyngedig. Rhaid i'r practis gynyddu nifer y darnau sydd ar gael i'w defnyddio er mwyn sicrhau ei fod yn cynnal y safonau ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn cynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd yn unol â WHTM 01-05.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis gyflwyno system ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

Rhaid i'r practis sicrhau mai dim ond unwaith y defnyddir bandiau matrices.

⁴ Cyflwynwyd Cyfarwydddeb 2010/32/EU y Cyngor Ewropeaidd (y Gyfarwydddeb Offer Miniog) er mwyn atal anafiadau a heintiau a gludir yn y gwaed i weithwyr mewn ysbytai a gweithwyr gofal iechyd o offer miniog megis nodwyddau. Mae Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd) 2013 yn rhoi agweddau ar y gyfarwydddeb nas ymdrinnir â nhw'n benodol o fewn deddfwriaeth gyfredol ym Mhrydain Fawr ar waith

Rhaid i'r practis gynyddu nifer y darnau llaw uwchsonig.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru.

Mae dyletswydd ar ddarparwyr gofal iechyd i ddarparu sgiliau dadebru os bydd unigolyn yn dioddef ataliad cardio-anadlol ac i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi a'u diweddu'n rheolaidd hyd at lefel o fedrusrwydd sy'n briodol ar gyfer eu rôl⁵. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Roedd y staff yn ymwybodol o Gynllun Cardiau Melyn MHRA⁷ ar gyfer rhoi gwybod am broblemau â meddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

⁵ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/>

⁶ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

⁷ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed, a oedd yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Fel y nodwyd mewn adran gynharach o'r adroddiad hwn, nid oedd rhai o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol mewn perthynas ag amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu mewn perthynas â phlant ac oedolion. Y prif ddeintydd yw'r arweinydd diogelu dynodedig a phan fydd yn ymgymryd â hyfforddiant, awgrymwn y dylid ystyried ymgymryd â hyfforddiant hyd at lefel tri.

Roedd trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon drwy gyfarfodydd rheolaidd â chofnodion ohonynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu gofynnol a bod yr hyfforddiant hwnnw yn parhau'n gyfredol. Hefyd, dylid ystyried hyfforddi'r arweinydd diogelu hyd at lefel tri.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chadw'n gyfredol, roedd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Yn unol â'r rheoliadau, roedd polisi ar waith gan y practis mewn perthynas â chynnal a chadw cyfarpar a diogelwch cyfarpar.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁸ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)⁹ 2000, roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

⁸ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

Gwelsom fod y rheolau lleol¹⁰ yn y ddwy ddeintyddfa wedi dyddio, ac argymhellwyd gennym y dylid eu diweddarau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y rheolau lleol ar gyfer y ddwy ddeintyddfa yn gyfredol

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n barhaus er budd y cleifion.

Nodwyd gennym fod y defnydd o acronymau yn anghyson wrth gofnodi cydsyniad ar gofnodion y cleifion. Argymhellwn y dylid ei gofnodi'n gliriach ar gyfer pob claf.

Nid oedd cofnodion papur hŷn ar gyfer cleifion yn glir iawn nac yn gryno. Rydym yn cydnabod bod y practis wrthi'n trosglwyddo i system nodiadau cwbl gyfrifiadurol a fydd yn gwella safon y cofnodion.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod llwybrau atgyfeirio ar gyfer rhoi'r gorau i smygu a chofnodion sgrinio ar gyfer cancer yn anghyson ac nad oeddent bob amser yn glir yn y nodiadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis gael cydsyniad clir gan gleifion a'i gofnodi'n glir ar y cofnodion.

Rhaid i'r practis fwrw ati â'r broses o drosglwyddo i nodiadau electronig.

Rhaid i'r practis nodi llwybrau rhoi'r gorau i smygu ac achosion o sgrinio cleifion ar gyfer cancer yn glir yn nodiadau'r cleifion.

⁹ http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2000/1059/pdfs/ukxi_20001059_en.pdf

¹⁰ <https://hygeia.co.uk/radiography-local-rules/>

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig a chofnodion ar bapur, a nodwyd gennym fod y rhain yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu creu'n rheolaidd ac yn cael eu storio'n briodol

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom ddiffyg cysondeb wrth gofnodi gwybodaeth. Yn ogystal, gwelsom nad oedd rhai cofnodion yn cynnwys y canlynol:

- Rhoi tystiolaeth o adalw gan NICE¹¹
- Cofnodi cydsyniad llafar
- Archwiliadau meinweoedd meddal
- Canfyddiadau sgrinio ar gyfer canser y geg
- Hanes cymdeithasol
- Gwrthlofnodi hanesion meddygol
- Dylid dyddio siartiau er mwyn cynnwys yr archwiliadau a'r driniaeth yn ystod pob ymweliad

Argymhellwn y dylid cwblhau nodiadau cleifion yn unol â'r canllawiau cyfredol ac er mwyn cynnal safonau proffesiynol. Nodwyd gennym fod y prif ddeintydd yn cwblhau cofnodion papur a chofnodion electronig ar gyfer pob claf, ac o ganlyniad, mae rhywfaint o'r wybodaeth uchod wedi'i methu neu mae hanes deintyddol claf yn ddryslyd i'w ddarllen. Argymhellwn y dylid ystyried defnyddio cofnodion electronig yn unig.

¹¹ <https://www.nice.org.uk/guidance/ng19/chapter/1-recommendations>

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cofnodi gwybodaeth yn unol â'r canllawiau a'r safonau proffesiynol cyfredol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o strwythur rheoli cryf gyda rolau'r staff wedi'u diffinio'n glir. Mae gan y practis hanes hir ac aelodau o staff sydd wedi bod yno ers cryn amser. Roedd ymdeimlad cryf o dîm ac ysbryd tîm da yn amlwg.

Roedd gan y practis amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i gefnogi'r staff yn eu rolau. Gwelsom hefyd fod arfarniadau staff blynyddol a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar The Family Practice. Mae rheolwr practis dynodedig ac mae tîm cryf â rolau a chyfrifoldebau dynodedig.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Cawsom gopi o'r Datganiad o Ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Fodd bynnag, rhaid darparu manylion cyswllt AGIC yn yr adran sy'n disgrifio trefniadau'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd ei bod yn ymwybodol o'i dyletswyddau o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC o dan reoliadau 25-29 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod gan y practis dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd nifer o bolisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol ar waith yn y practis, gan gynnwys polisi recriwtio a dethol.

Nodwyd gennym fod gan bob aelod o'r staff gontract cyflogaeth a oedd yn cael ei gadw yn ffeiliau'r staff. Nodwyd gennym hefyd fod gan y practis bolisi hyfforddi staff ar waith. Roedd digon o staff yn gweithio yn y practis a gellid parhau i ddarparu gwasanaethau pe byddai aelodau o'r staff yn absennol.

Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u dogfennu. Dywedwyd wrthym fod Cynlluniau Datblygiad Personol yn cael eu cyflwyno a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, nodwyd gennym nad oedd pob aelod o'r staff clinigol ac anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant ym mhob maes sy'n berthnasol i'w rolau, ac er mwyn bodloni eu gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd er mwyn trafod nifer o bynciau, a gwelsom fod cofnodion hefyd ar gael o'r cyfarfodydd.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag Hepatitis B. Gwneir hyn er mwyn eu diogelu nhw a'r cleifion. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod parhaol o'r staff clinigol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: The Family Practice, Morfydd Street, Abertawe

Dyddiad arolygu: 10/12/2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth yr oedd angen sylw arnynt ar unwaith				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolwr o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Tudalen 26 o 33

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: The Family Practice, Morfydd Street, Abertawe

Dyddiad arolygu: 10/12/2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym pa gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd; Insert appropriate part of PDR			
	4.1 Gofal Gydag Urddas; Insert			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	appropriate part of PDR			
	4.2 Gwybodaeth i Gleifion, Insert appropriate part of PDR			
	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol; Insert appropriate part of PDR			
	5.1 Mynediad amserol; Insert appropriate part of PDR			
	6.1 Cynllunio Gofal er mwyn hyrwyddo annibyniaeth; Insert appropriate part of PDR			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis sicrhau y gall pobl â symudedd cyfyngedig ddefnyddio'r toiledau	6.2 Hawliau pobl; <i>Insert appropriate part of PDR</i>	Mae canllawiau yn cael eu gosod er mwyn helpu pobl â symudedd cyfyngedig.	Nicola Young Prif Berchennog	Diwedd mis Ebrill 2019
	6.3 Gwrandio a Dysgu o adborth, <i>Insert appropriate part of PDR</i>			
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r practis sicrhau bod y cynllun parhad busnes yn gyflawn ac yn addas at y diben, gan gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; <i>Insert appropriate part of PDR</i>	Gweithredwyd eisoes, mae'r holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i chynnwys a'i chwblhau.	Tracy Hardwick Rheolwr y Practis	Chwefror 2019
Dylai'r practis gyflwyno system ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Rhaid i'r practis sicrhau mai dim ond unwaith y defnyddir bandiau matrices. Rhaid i'r practis gynyddu nifer y darnau llaw uwchsonig.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, <i>Insert appropriate part of PDR</i>	Yn ogystal â'r cynlluniau datblygiad personol a luniwyd ar gyfer pob aelod o'r staff mewn perthynas â'u cofrestriad, lluniwyd tabl cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol hefyd sy'n golygu y gellir amlygu'r pynciau hyn yn glir a monitro pan fydd pob aelod o staff y practis yn cwblhau'r hyfforddiant hwnnw.	Tracy Hardwick Rheolwr y Practis	Chwefror 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Ni chaiff bandiau matrices eu hailfandio mwyach ar gyfer pob claf gan ddefnyddio dyfeisiau dal awtoclaf, ond defnyddir cynnyrch defnydd unigol tafladwy fel y drefn safonol. Prynwyd darnau llaw uwchsonig eisoes ym mis Ionawr 2019		
	2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Insert appropriate part of PDR			
Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diogelu gofynnol a bod yr hyfforddiant hwnnw yn parhau'n gyfredol. Hefyd, dylid ystyried hyfforddi'r arweinydd diogelu hyd at lefel tri.	2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg; Insert appropriate part of PDR	Trefnwyd i bob aelod o'r staff fynychu'r cwrs diogelu ar 1 Mawrth 2019 Bydd Nicola Young, fel yr arweinydd diogelu, yn mynychu'r hyfforddiant lefel 3 nesaf a gynigir	Tracy Hardwick Rheolwr y Practis	1 Mawrth 2019
Rhaid i'r practis sicrhau bod y rheolau lleol ar gyfer y ddwy ddeintyddfa yn gyfredol	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Insert appropriate part	Diweddarwyd yr holl reolau lleol.	Tracy Hardwick Rheolwr y Practis	Rhagfyr 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	of PDR			
Rhaid i'r practis gael cydsyniad clir gan gleifion a'i gofnodi'n glir ar y cofnodion. Rhaid i'r practis fwrw ati â'r broses o drosglwyddo i nodiadau electronig. Rhaid i'r practis nodi llwybrau rhoi'r gorau i smygu ac achosion o sgrinio cleifion ar gyfer cancer yn glir yn nodiadau'r cleifion	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol; Insert appropriate part of PDR	Mae'r holl nodiadau bellach ar ffurf electronig a chaiff pob agwedd y tynnwyd sylw ati ei chofnodi a'i marcio'n gliriach o ran nodiadau arferion smygu a rhoi'r gorau i smygu a sgrinio cleifion ar gyfer cancer.	Nicola Young Prif Berchennog	Rhagfyr 2018
	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; Insert appropriate part of PDR			
	3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu; Insert appropriate part of PDR			

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid cofnodi gwybodaeth yn unol â'r canllawiau a'r safonau proffesiynol cyfredol	3.5 Cadw cofnodion; Insert appropriate part of PDR	Mae'r holl gofnodion bellach ar ffurf electronig ac yn bodloni'r holl ganllawiau a'r safonau gofynnol.	Nicola Young Prif Berchennog	Rhagfyr 2018
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; Insert appropriate part of PDR			
	7.1 Y Gweithlu; Insert appropriate part of PDR			

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolwr o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **TRACY HARDWICK**

Swydd: **Rheolwr y Practis**

Dyddiad: 20/02/2019